



Cynllun Ymyrraeth

GOSODIADAU TÂN

FIRESETTING
Intervention Scheme



CYNNAU TANAU

Cyngor i rieni a gwarcheidwaid

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Cyngor i rieni a gwarcheidwaid

Mae'r llyfryn hwn wedi ei gynllunio i roi cyfarwyddyd i rieni a gwarcheidwaid a allai fod yn pryderu am blentyn neu rywun ifanc sy'n chwarae gyda thanau neu yn cynnau tanau.

Dylai rhieni a gwarcheidwaid sy'n pryderu am blant yn cynnau tanau ddilyn y cyngor yn y llyfryn hwn.

Yn y lle cyntaf peidiwch â dychryn gormod - Gall fod yn rhan arferol o ddatblygiad plentyn

Darllenwch y cyngor pwysig hwn

Gwnewch yn siwr fod tanwyr a matsis yn cael eu storio allan o olwg a chyrraedd plant a phobl ifanc.

- Ymatebwch fel bo'n briodol heb ddisgyblaeth sy'n rhy lym.
- Peidiwch byth â gadael plant ar eu pennau'u hunain yn y ty, hyd yn oed am gyfnodau byr.
- Chwiliwch am danwyr a/neu fatsis mewn dillad, ystafelloedd gwely a bagiau ysgol.
- Cadwch olwg yn rheolaidd am arwyddion o gynnau tanau fel olion llosgi ar garpedi, gwelyau a chelfi - yn enwedig yn eu hystafelloedd gwely.
- Eglurwch mai rhywbeth i'w ddefnyddio gan oedolion yw tân ac nid tegan mohono. Dim ond oedolion ddylai ei ddefnyddio am ei fod yn beryglus. Soniwch am y ffyrdd mae oedolion yn defnyddio tân, ar gyfer coginio, canhwyllau ac i gadw'n gynnes.

- Eglurwch sut gall tanau achosi anafiadau a lladd.
- Peidiwch â chadw hylifau fflamadwy yn y ty a chadwch dai allan, siediau gerddi a garejys dan glo i rwystro plant rhag cael gafael ar hylifau fflamadwy.
- Gwnewch yn siwr fod larymau mwg sy'n gweithio wedi eu gosod yn y cartref. Y peth doethaf yw cael un ym mhob ystafell ar wahân i'r gegin a'r ystafell ymolchi. Ar ymymryn lleiaf dylai fod un larwm mwg ar bob lefel yn y ty.
- Profwch y larymau mwg bob wythnos drwy bwysu'r botwm prawf. Gofalwch amdanynt drwy ddwstio neu roi trwyn y sugnwr llwch dros y synhwyrdd yn ystod eich prawf wythnosol.
- Lluniwch gynllun diogelwch tân yn y cartref gyda'ch teulu a'i ymarfer (mae manylion ar ble i gael gwybodaeth am ddiogelwch tân yng nghefn y llyfryn hwn).

Os bydd tân, rhybuddiwch weddill y teulu ac

**EWCH ALLAN, ARHOSWCH ALLAN
A FFONIWCH Y
GWASANAETH TÂN!**

Beth yw'r arwyddion?

Dylech sylwi yn ddigon cyflym os yw eich plentyn yn chwarae â tân dro ar ôl tro.

Cadwch lygad allan am dyllau llosgi bychan yn y carpedi a phapur wedi llosgi mewn sinciau neu fasgedi sbwriel.

Efallai bydd matsis a thanwyr wedi eu cuddio yn eu cypyrddau, droriau, o dan y gwely neu byddant yn gwybod yn union ble mae cael gafael ar eich rhai chi hyd yn oed os ydych yn meddwl eich bod wedi eu cuddio.

Efallai bydd eich plentyn yn dangos diddordeb anarferol mewn tân.

Bydd tân yn dechrau ac ni fyddwch yn gwybod y rheswm pam.

Pam mae plant yn cynnau tanau?

Mae plant a phobl ifanc yn dechrau chwarae â tân am amryw o resymau, yn amrywio o chwilfrydedd naturiol i chwilio am sylw neu gri am help.

Heb gymorth a chyfarwyddyd gall cynnau tanau gynyddu ac arwain at ganlyniadau mwy difrifol fel anaf personol a difrod difrifol i gartrefi, ysgolion ac eiddo arall.

Mae angen adnabod yr ymddygiad hwn ac ymdrin ag ef yn y ffordd briodol er mwyn lleihau'r siawns y bydd yn digwydd eto.

- Beth ddylech wneud os byddwch yn amau bod eich plentyn yn chwarae â tân?
- Ystyriwch eich ymddygiad eich hun a sut y gallai ddylanwadu ar ymddygiad y plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt.

- Dilynwch y cyngor yn y daflen hon, ac fe allech leihau'r siawns y bydd eich plentyn yn cynnau tân dinistriol.
- Os credwch fod y broblem yn ddifrifol neu os ydych yn teimlo bod arnoch angen cymorth i ddelio â hi yna gallwch ein ffonio ni.

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru Gynllun Ymyrraeth Cynnau Tanau.

Cynllun Ymyrraeth Cynnau Tanau (CYCT)

Mae Personél y Gwasanaeth Tân sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig i weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n peri pryder oherwydd eu diddordeb mewn tân yn cynnig cymorth o dan y cynllun hwn.

Mae'r Cynllun yn diwallu plant a phobl ifanc o oed 5 ac ymlaen.

Beth mae'r Cynllun yn ei wneud?

Mae'r cynllun yn cynnig nifer o raglenni addysg a chyngor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd neu i unrhyw asiantaeth â diddordeb.

Mae'r rhaglenni yn cynnwys ymweliad cartref, y rhaglen SAFE (4 sesiwn fel arfer) a'r rhaglen FIRESAFE (10 sesiwn). Mae pobl ifanc sydd wedi cael eu dal am gynnu tanau'n fwriadol fel arfer yn dilyn y rhaglen hirach, er hynny, bwriad y cynllun yw helpu atal pobl ifanc rhag cyrraedd y sefyllfa hon yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn anelu at gynorthwyo pobl ifanc sy'n eu cael eu hunain yn y sefyllfa hon. Mae'r sesiynau SAFE a FIRESAFE yn cael eu cynnal mewn Gorsaf Dân fel arfer ac maent yn para tua awr.



Cynllun Ymyrraeth
GOSODIADAU TÂN
FIRESETTING
Intervention Scheme

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y cynllun a'r rhaglenni a
gynigir cysylltwch â

01443 232407 neu 07881671806
neu e-bostiwch l-thomas@southwales-fire.gov.uk
neu fis@southwales-fire.gov.uk

Cynllun Ymyrraeth Cynnau Tanau
Adran Diogelwch Cymunedol
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX